DAVID

Doed a ddelo

(penderfyniad / dewrder / dysgu gwrando)

Ar ôl dychwelyd o'r maes awyr roedd David yn benderfynol ei fod, ar ôl gadael yr ysgol, am fod yn beilot. Roedd gweld awyrennau yn troelli a chwyrnellu drwy'r awyr yn yr Arddangosfa wedi bod yn brofiad byw iawn iddo. Gyda'r nos byddai wrth ei fodd yn gwneud modelau Airfix o wahanol awyrennau. Ond yn yr ysgol roedd pethau'n wahanol iawn. Doedd ganddo fawr o ddiddordeb mewn gwaith ysgol a byddai pob un o'r athrawon yn cwyno amdano. Pan oedd yn 16 oed ymunodd â Chlwb Gleidio Norfolk. Cafodd gyfle i ddangos ei ddoniau a doedd dim troi arno bellach.

Un nod oedd yna, sef ymuno â'r Awyrlu ond roedd yn rhaid pasio arholiadau Lefel A er mwyn cael mynediad. Am dair blynedd bu wrthi'n ymlafnio ac ar ddiwedd y cwrs dim ond dau Lefel A oedd ganddo. Ond roedd yn benderfynol. Aeth am gyfweliad i Biggin Hill yn Swydd Caint. Barn Cadeirydd y panel dewis ar ddiwedd y cyfweliad oedd, "Mae'n well i ti anghofio'r cwbl am fod yn beilot!" Cerddodd allan o'r adeilad a'r dagrau'n llenwi ei lygaid a'i freuddwydion yn chwilfriw.

"Reit," meddai, pan ddaeth ato'i hun, "os na chaf fynediad i'r Awyrlu beth am British Airways?" Ond yma eto yr un oedd y neges.

Gadawodd ei gartref i fynd i astudio ar gyfer HND yn un o golegau Llundain. Bu'n llwyddiannus y tro hwn a chafodd swydd gyda British Aerospace. Bellach roedd ar y ffordd i gyrraedd ei nod.

Ond ym mis Hydref 1979 digwyddodd rhywbeth brawychus. Pan oedd yn loncian un bore syrthiodd. Doedd neb yn gwybod beth oedd wedi digwydd iddo. Aethpwyd ag ef i'r ysbyty leol. Roedd wedi cael strôc ac yntau'n ddim ond dwy ar hugain oed. Ar ôl misoedd yn yr ysbyty, ac yntau bellach mewn cadair olwyn, doedd ganddo ddim syniad beth oedd gan y dyfodol ar ei gyfer. I wneud pethau'n waeth roedd ei briodas wedi dirwyn i ben hefyd.

Ymhen dwy flynedd ar ôl cael strôc derbyniodd ei dystysgrif HND mewn seremoni raddio. Wrth iddo geisio cerdded i fyny'r grisiau tua'r llwyfan syrthiodd ar ei wyneb. Clywodd rywun yn chwerthin yn y gynulleidfa. Beichiodd grio. Roedd y cwbl yn ormod iddo. O'r munud hwnnw ymlaen meddyliai am gael marw. Roedd

ei fywyd ar ben. Digoen oedd digon.

Un diwrnod gwelodd boster yn cyhoeddi bod cyfarfod o'r Undeb Gristnogol yn cyfarfod. Tybed meddai, oes gan Gristnogaeth rywbeth i'w gynnig. Aeth i'r cyfarfod y noson honno. Ond ar ôl ychydig funudau roedd eisiau dianc o'r lle am byth. Pan oedd ar ei ffordd allan daeth un o'r bechgyn ato.

"Beth am i ti ddod i weld ffilm *No Longer Alone* nos yfory? Stori ydi hi am wraig oedd wedi rhoi ei bryd yn gyfan gwbl ar fod yn actores ond na chafodd hi ei dymuniad."

Ddywedodd David ddim byd ond "Nos da, diolch i chi am y gwahoddiad". Meddyliodd ac meddai, "Tybed beth fydd gan y ffilm i'w ddweud wrtha i?"

Ar ei ffordd allan, ar ôl gweld y ffilm, rhoddodd un o'r bechgyn ei gopi o'i Feibl iddo i'w ddarllen. Y noson honno agorodd David y Beibl am y tro cyntaf yn ei fywyd. Edrychodd ar rai adnodau yn Efengyl Mathew . . . "na phryderwch. . ."

O'r eiliad honno doedd dim troi'n ôl. Roedd drysau'n agor iddo. Daeth yn aelod yn ei eglwys leol a chafodd swydd gyda Jacky. Ymhen ychydig fisoedd roedd David a Jacky wedi priodi. Roedd bywyd David wedi ei droi wyneb i waered.

Adnod: "Am hynny rwy'n dweud wrthych, peidiwch â phryderu am eich bywyd..." Mathew 6:25

Gweddi: O Dad, pan fydda i yn y dyfnderoedd, yn y gwaelodion a phan fydd hi'n dywyllwch o'm cwmpas, wnei di, os gweli'n dda, lewyrchu dy oleuni yng nghanol y tywyllwch. Amen.

Trafod:

- Beth fyddai eich ymateb chi petaech wedi cael eich gwrthod i fod yn beilot?
- Ydych chi'n credu fod gan y ffordd Gristnogol heddiw ateb i broblemau'r byd a phroblemau unigolion?